**Atodiad G - Enghraifft o lythyr yn gofyn am wybodaeth yn dilyn camddefnydd a amheuir**

**Cyfeiriad yr Awdurdod Lleol**

**ENW a CHYFEIRIAD Y TROSEDDWR**

Ffôn:

Ffacs:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

**Annwyl ENW,**

**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 - Adran 112**

**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 - Adran 116**

**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 - Adran 117**

Yr wyf yn ymchwilio i ddefnydd honedig o Fathodyn Glas parcio i bobl anabl a oedd yn eiddo i unigolyn sydd wedi marw. Credaf y gallwch fy helpu gyda fy ymholiadau. Mae gwiriad a gyflwynwyd i'r DVLA wedi'i ddychwelyd ac mae'n nodi mai chi yw ceidwad cofrestredig cyfredol y cerbyd dan sylw.

Ar **(AMSER, DIWRNOD A DYDDIAD)** gwelwyd eich cerbyd modur **(GWNEUTHURIAD A MODEL)** wedi'i barcio mewn man parcio talu ac arddangos wedi'i farcio yn **(LLEOLIAD)** gan arddangos Bathodyn Glas parcio i bobl anabl a oedd yn eiddo i unigolyn sydd wedi marw, â'r rhif cyfresol **(RHIF CYFRESOL).** Bernir bod defnyddio bathodyn anabledd unigolyn sydd wedi marw yn yr amgylchiadau hyn yn drosedd sy'n groes i ddarpariaethau adran 115 ac 117 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Yn unol â darpariaethau adran 112 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, yr wyf yn mynnu yn ffurfiol ichi ddarparu gwybodaeth ynghylch pwy oedd y gyrrwr yr honnir ei fod yn euog o drosedd; i'ch galluogi i gydymffurfio â'r cais hwn, gofynnir ichi lenwi a dychwelyd y datganiad adran 112 amgaeedig cyn pen 7 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hwn.

**Mae'n rhaid imi eich hysbysu ei bod yn drosedd, o dan adran 112 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, peidio ag enwi gyrrwr cerbyd yn unol â chais, ac mai'r gosb bosibl am hyn yw dirwy o hyd at £1,000.**

Mae cadw a defnyddio bathodyn anabledd unigolyn sydd wedi marw hefyd yn torri Rheoliad 9

(1) (b) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000, sy'n nodi bod yn rhaid dychwelyd bathodyn anabledd ar unwaith ar ôl marwolaeth y deiliad. Mae **(YR AWDURDOD A RODDODD Y BATHODYN)** yn gofyn yn ffurfiol am i'r Bathodyn Glas â'r rhif cyfresol **(RHIF CYFRESOL)** gael ei ddychwelyd**.** Dylid cyflwyno'r bathodyn imi neu ei anfon ataf yn y cyfeiriad isod cyn pen <u>7 diwrnod</u> ar ôl dyddiad y llythyr hwn.

**Mae'n rhaid imi eich hysbysu hefyd bod peidio â chydymffurfio â'r cais hwn yn drosedd o dan adran 116 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ac mai'r gosb bosibl am hyn yw dirwy o hyd at £1,000. Mae parhau i ddefnyddio bathodyn ar ôl cael cais i'w ddychwelyd hefyd yn drosedd o dan adran 21(4BZA) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, a'r gosb bosibl am hyn yw dirwy o hyd at £1,000.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y llythyr hwn neu'r ffurflenni a ddarparwyd, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

ENW

Awdurdod Lleol